



## Powys County Council Councillor's Annual Report

This report gives details of the Councillor's key activities over the year ending 12 May 2021. It is provided for the information of all constituents and for no other purpose.

|                                       |   |
|---------------------------------------|---|
| <b>Councillor:</b> David Selby        | <b>Tel:</b> 01686 625120                    |
| <b>Ward:</b> Newtown Central          | <b>Mobile:</b> 07979 708000                 |
| <b>Shire:</b> Montgomeryshire         | <b>Email:</b> cllr.david.selby@powys.gov.uk |
| <b>Group:</b> Welsh Liberal Democrats | <b>Date:</b> September, 2021                |

### Section 1: Role & Responsibilities

Details of the Committees and Working Groups in which I participated and my attendance are available via the following link to my page on the Council website:

[Committees & attendance](#)

I have been involved in important scrutiny work, particularly associated with the unsatisfactory performance of the HOWPS repair services.

I served on the following outside organisations:  
Theatr Hafren Management Committee

### Section 2: Constituency activity

I view my work assisting local residents as the most important part of my work as a Councillor.

I held, when restrictions allowed, weekly advice surgeries at the Liberal Democrat Office at 3 Park Street, Newtown every Tuesday, and visited people in their homes by request.

I provided regular facebook updates on my activities and Council issues on my dedicated facebook site:- /councillordavidselby. When restrictions were eased, I also circulated Focus newsletters which were delivered to every home in my ward.

During the last year much of my work has been associated with the area's response to the COVID emergency. I have played a full part in the Newtown Network group assisting residents in need. I have been part of the volunteer group delivering hot meals around the town, and helped in the production and distribution of two directories of services to ensure that residents are aware of the services that they can access.

I have been active in explaining the road and pedestrian safety measures at Nantoeir Bridge and along Llanidloes Road using social media, written communication and personal visits to ensure the Welsh Government scheme met local needs.

I have responded to local concerns around our estates, particularly parking, and have sought solutions to this difficult issue.

I am happy to provide more detailed information on my work and discuss any Council issue with local residents.

### **Section 3: Learning & Development**

Details of my attendance at learning and development sessions are available via the following link to my page on the Council website:

[Member development & seminars](#)

### **Section 4: Outside organisations and other activities**

I am also a member of Newtown and Llanllwchaiarn Town Council, and served as Town Mayor until May 2021. I serve on the Resources and Strategy and Corporate Projects, Economy and Environment Committees. I have worked on improving services offered through the Town Council and implementing the Council's 5 year plan. In particular I have been involved with seeking grant funding for town centre improvements which are now in the process of being delivered.



## Cyngor Sir Powys Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am weithgareddau allweddol y Cynghorydd dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar 12 Mai 2021. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

|   |   |
|---|---|
| <b>Cynghorydd:</b> David Selby              | <b>Ffôn:</b> 01686 625120   |
| <b>Ward:</b> Canol Y Drenewydd              | <b>Ffôn Symudol:</b> 07979 708000   |
| <b>Ardal:</b> Sir Drefaldwyn                | <b>E-bost:</b> <a href="mailto:cldr.david.selby@powys.gov.uk">cldr.david.selby@powys.gov.uk</a> |
| <b>Grŵp:</b> Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | <b>Dyddiad:</b> Medi, 2021  |

### Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau

Mae manylion y Pwyllgorau a Gweithgorau yr wyf wedi cymryd rhan ynddynt ynghyd â fy mhresenoldeb ar gael trwy ddilyn y ddolen ganlynol i fy nhudalen ar wefan y Cyngor:  
[Pwyllgorau a phresenoldeb](#)

Rwyf wedi bod yn rhan o waith craffu pwysig ac yn benodol rwyf wedi bod yn gysylltiedig â chraffu perfformiad anfoddhaol gwasanaethau atgyweirio HOWPs.

Rwyf yn gwasanaethu ar y sefydliadau allanol canlynol:  
Pwyllgor Rheoli Theatr Hafren

### Adran 2: Gweithgaredd yr etholaeth

Rwy'n gweld fy ngwaith yn cynorthwyo trigolion lleol fel y rhan bwysicaf o'm gwaith fel Cynghorydd.

Cynhaliais gymhorthfeydd cynghori wythnosol yn Swyddfa'r Democratiaid Rhyddfrydol yn 3 Stryd y Parc, Y Drenewydd pob dydd Mawrth, ac ymweld â phobl yn eu cartrefi trwy gais, pan yr oedd y cyfyngiadau'n caniatáu hynny.

Darperais ddiweddariadau rheolaidd ar facebook ar fy ngweithgareddau a materion y Cyngor o fewn fy safle facebook dynodedig:- /councillordavidselby. Pan gafodd y cyfyngiadau eu codi, dosbarthais gylchlythyron Focus i bob cartref yn fy ward.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae llawer o fy ngwaith wedi bod yn gysylltiedig ag ymateb yr ardal i'r argyfwng COVID. Rwyf wedi chwarae rhan llawn yn y grŵp Rhwydwaith Y Drenewydd yn helpu trigolion mewn angen. Rwyf wedi bod yn rhan o'r grŵp o wirfoddolwyr yn dosbarthu prydau bwyd poeth o amgylch y dref, ac wedi helpu yn cynhyrchu a dosbarthu dau gyfeirlyfr o wasanaethau i sicrhau bod trigolion yn ymwybodol o'r gwasanaethau y gallant eu defnyddio.

Rwyf wedi bod yn weithgar yn esbonio'r mesurau diogelwch ar y ffyrdd a'r mesurau i gerddwyr ym Mhont Nantoer ac ar hyd Ffordd Llanidloes gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, cyfathrebu ysgrifenedig ac ymweliadau personol i sicrhau bod cynllun Llywodraeth Cymru yn diwallu anghenion lleol.

Rwyf wedi ymateb i bryderon lleol ynghylch ein hystadau, yn enwedig parcio, ac wedi ceisio cael atebion i'r mater anodd hwn.

Rwy'n hapus i gynnig gwybodaeth fanylach ar fy ngwaith a thrafod unrhyw fater Cyngor gyda thrigolion lleol.

### **Adran 3: Dysgu a Datblygu**

Mae manylion fy mhresenoldeb yn y sesiynau dysgu a datblygu ar gael trwy ddilyn y ddolen ganlynol i fy nhudalen ar wefan y Cyngor:

[Seminars a Datblygu Aelodau](#)

### **Adran 4: Sefydliadau allanol a gweithgareddau eraill**

Rwyf hefyd yn aelod o Gyngor Tref Y Drenewydd a Llanllwchaearn, a gwasanaethais fel Maer y Dref tan fis Mai 2021. Rwy'n gwasanaethu ar y Pwyllgorau Adnoddau a Strategaeth a Phrosiectau Corfforaethol, Yr Economi a'r Amgylchedd. Rwyf wedi gweithio ar wella gwasanaethau a gynigir trwy Gyngor y Dref a gweithredu cynllun 5 mlynedd y Cyngor. Yn benodol, rwyf wedi bod ynghlwm â cheisio nawdd grant ar gyfer gwelliannau canol dref sydd bellach yn y broses o gael eu cyflawni.